Glandŵr Cymru
The Canal & River Trust in Wales

Un o'n Perlau Cudd

Safle Treftadaeth y Byd

Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte



Safle Treftadaeth y Byd
Pontcysyllte
World Heritage Site

Dewch am dro i Ddyfrbont Pontcysyllte

Mae Dyfrbont Pontcysyllte a Basn Trefor ar Gamlas Llangollen wedi ennill Statws Treftadaeth y Byd. Mae hynny'n golygu eu bod mor bwysig â Chôr y Cewri!

Map nid ar raddfa:
Ardal o tua 1 filltir/1.6km

Am fwy o wybodaeth a llefydd i ymweld â nhw, lawrlwythwch ein App - Canal & River Trust 'Places to Visit' – o'n Siop App a Google Play

glandwrcymru.org.uk

Ysbrydoliaeth i bawb

Cynlluniwyd Dyfrbont Pontcysyllte gan Thomas Telford a William Jessop, i gludo Camlas Llangollen ar draws Dyffryn Dyfrdwy. Ym 1805, cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r colofnau carreg enfawr a'r cafn haearn bwrw 39 metr (127 troedfedd) uwchlaw'r afon. Dyma un o gampweithiau mwyaf y camlesi.

Mae'n RHAD ac am DDIM!*

Pump Pontcysyllte

- ☐ **Croeswch** y ddyfrbont ar droed - ond gobeithio nad oes gennych chi ofn uchder!
- ☐ **Ewch** ar daith cwch dros y ddyfrbont, mae'n union fel hofran i fyny fry yn yr awyr.
- ☐ **Chwiliwch** am y rhigolau ar reiliau'r ddyfrbont. Olion rhaffau'r cychod culion a oedd yn cael eu tynnu gan y ceffylau ydyn nhw.
- ☐ **Cerddwch** ar lan yr afon i weld y ddyfrbont o'r gwaelod. Mae'r pileri yn rhannol wag ac yn culhau tua'r brig, fel bod y ddyfrbont mor ysgafn â phosib.
- ☐ **Sylwch** ar adfeilion y ffowndrïau haearn, y gweithfeydd brics a'r odynnau calch a oedd ar hyd a lled yr ardal ers talwm. Cafodd yr ardal ei disgrifio fel 'golygfa o uffern' adeg oes Fictoria.

Gwybodaeth

Dyfrbont Pontcysyllte
LL20 7YQ

- Parcio
- Toiledau
- Tafarn
- Canolfan Ymwelwyr (ar agor mis Mawrth – mis Hydref)
- Mainc bicnic
- Llogi cychod a theithiau
- Llwybr
- Llwybr Clawdd Offa
- Dylech neilltuo hanner diwrnod ar gyfer eich ymweliad.

*** Cofiwch:**
Er bod y safle ar agor bob amser, efallai na fydd y cyfleusterau yn agored ac na fydd y teithiau cychod yn rhedeg ac mae'n bosib y codir tâl am rai ohonynt. Mae'n werth i chi holi'r busnesau lleol cyn i chi fentro.

Rhannwch eich antur

Postiwch lun ar ein tudalen facebook.com/canalrivertrust a rhowch wybod i ni beth oedd yr uchafbwyntiau.

Dewch yn un o Ffrindiau Glandŵr Cymru!

"Yn y Gamlas y cefais i fy anifail anwes cyntaf erioed, Tomi'r Penbwl. Heddiw, dyma lle rwy'n cyflwyno rhyfeddodau syml byd natur i'm hwyrion. Mae'n rhaid i bob un ohonom warchod ein camlesi a'n hafonydd. Fel arall, byddan nhw'n diflannu. Am byth. Am wastraff."

Carol, 56 oed (sy'n dal i chwilio am rifft broga).

Beth am wneud cyfraniad rheolaidd yn canalrivertrust.org.uk/familyfriend neu ffoniwch 0303 040 4040 i ofyn am becyn croeso.

Chwilota ymhellach

Ewch i canalriverexplorers.org.uk am lond gwlad o bethau i'w gwneud fel teulu.

Diolch o galon i'n holl wirfoddolwyr am helpu i lunio'r rhain – rydych chi'n gwybod pwy ydych chi.

© Glandŵr Cymru/Canal & River Trust Rhif 1146792
07/13 y Comisiwn Elusennau